TEGRYN

CYNLLUN GWEITHREDU

Rhan-ariennir prosiect 'Cefnogi Cymunedau' PLANED gan Yr Undeb Ewropeaidd
Amcan 1 (EAGGF) a Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy gyfrwng Cronfa Adfywio Lleol,
Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru

CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU
COUNTRYSIDE COUNCIL FOR WALES

CYNLLUN GWEITHREDU TEGRYN

Fe'i paratowyd gan

GYMUNED TEGRYN

ar y cyd â

(PEMBROKESHIRE LOCAL ACTION NETWORK FOR ENTERPRISE AND DEVELOPMENT)

Cynnwys **Tudalen**

Cefndir y Cynllun Gweithredu	**2**
Ardal y Cynllun Gweithredu	**2**
Hanes y Gymuned	**2**
Cynigion y Cynllun Gweithredu	
A. Cyfleusterau'r Gymuned	**5**
B. Gweithgareddau'r Gymuned	**7**
C. Cyfathrebu	**11**
CH. Yr Amgylchedd (gan gynnwys Hawliau Tramwy)	**12**
D. Treftadaeth	**13**
DD. Tai	**14**
E. Busnes, Gwasanaethau a Chyflogaeth (gan gynnwys Twristiaeth)	**15**
F. Trafnidiaeth, Ffyrdd a Thraffig	**16**
FF. Gwaredu Gwastraff ac Ailgylchu	**18**
Gweithredu/Grwpiau Gweithredu	**19**

Cytunwyd y Cynllun Gweithredu hon mewn cyfarfod cyhoeddus ar 27ed Medi 2005, yn dilyn dosbarthu Cynllun Gweithredu Drafft i breswylwyr yng nghymuned Tegryn

CEFNDIR Y CYNLLUN GWEITHREDU

Yn gynharach eleni, trafododd cynrychiolwyr o bentref Tegryn ac o gwmni PLANED gynigion i baratoi Cynllun Gweithredu i bentref Tegryn. Ar 26ain Ebrill 2005, cafodd Gweithdy 1, Ymarfer Creu Gweledigaeth i'r Gymuned, ei gynnal, ac ar 10fed Mai cafodd Gweithdy 2 ei gynnal. Mae'r canlyniadau wedi llunio sylfaen drafft cyntaf y Cynllun Gweithredu.

Y bwriad wrth baratoi, mabwysiadu a gweithredu'r Cynllun yw cynnwys pobl o bob oed, a chynrychiolwyr o wahanol rannau o'r gymuned.

ARDAL Y CYNLLUN GWEITHREDU

Tegryn yw un o'r pentrefi uchaf yn Sir Benfro, sydd wedi'i leoli ar uchder o dros 250m/750 troedfedd. Ar ddiwrnod clir, mae'n bosibl gweld yr Wyddfa. Saif y pentref mewn ardal wledig iawn, ryw dair milltir i'r dwyrain o Grymych. Caiff Tegryn a'r pentrefi o'i hamgylch eu gwasanaethu gan rwydwaith o ffyrdd dosbarth 'C'. Mae'r A 478 rhwng Dinbych-y-Pysgod ac Aberteifi yn mynd trwy Grymych, ryw dair milltir i'r gorllewin.

Mae gan bentref Tegryn, sy'n rhan o ardal Cyngor Cymuned Clydau, boblogaeth o tua 140 o bobl.

HANES Y GYMUNED

Mae pentref Tegryn wedi'i leoli yng Ngogledd Sir Benfro ym mhlwyf Clydau, dair milltir i'r dwyrain o Grymych. Ar uchder o 750 troedfedd, mae'n mwynhau rhai o'r golygfeydd mwyaf trawiadol yn y rhanbarth. Ar ddiwrnod clir, mae'n bosibl gweld mynyddoedd Eryri. Mae gan y pentref tua 110 o adeiladau, ac mae'n sicr yn bentref sy'n tyfu, ac yn un sy'n cael ei gynnwys yn y Cyd-gynllun Datblygu Unedol (JUDP) ar gyfer datblygu pellach. Ond mae'n eithaf diarffordd, ac ar y cyfan, dim ond ffyrdd bychain cul sy'n gwasanaethu'r pentref. Er bod gan y pentref dwy garej, swyddfa bost, tafarn, a nifer o grefftwyr lleol, nid oes siop, ac mae'r

pentrefwyr yn dibynnu ar siopau Crymych i brynu bwyd a chyflenwadau bob dydd. Mae'r pentref yn ffinio Siroedd Caerfyrddin (un filltir) a Cheredigion (naw milltir). Er bod y pentref yn Sir Benfro, mae cysylltiadau pwysig ag Aberteifi – sydd yng Ngheredigion – gan mai hon yw'r dref sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r nwyddau nad ydynt ar gael yng Nghrymych. Y dyddiau hyn, mae'r rhan fwyaf o bobl oedran gweithio yn teithio i'r pentrefi a'r trefi cyfagos i weithio. Er gwaethaf bod y pentref yn falch o'i gysylltiad ag amaethyddiaeth, ac i'r pentref gael ei adeiladu yn bennaf at ddibenion anghenion ystad 'Clynfyw', mae'r nifer o ffermydd sy'n gweithio yn lleihau, ac mae ffermydd bach yn uno i wneud unedau mwy ymarferol.

Mae'r gymuned yn cynnwys rhai safleoedd archaeolegol a hanesyddol, sy'n amrywio yn ôl y dyddiad, o Oes Newydd y Cerrig i'r Oes Fodern, er prin iawn yw'r rhai sydd o bwys nodedig. Ceir rhai cofebau cynhanesyddol, megis tyrchfa gron o'r Oes Efydd ar ben y Frenni Fach. A ffaith anhysbys yw i safle gael ei amlygu ar fferm Llangene Fawr, un filltir i'r gogledd-orllewin o Degryn, yn un o'r 'Saith Tŷ Esgob' o'r cyfnod cyn Normanaidd yn Nyfed, sef 'Llan Geneu'. Roedd y saith mynachlog Celtaidd hyn yn cynrychioli calon eglwysig y saith Cantref, neu dalaith cyn Normanaidd, teyrnas hynafol Dyfed. Mae'n bosibl y gallai aneddiad mynachaidd pwysig fod wedi bodoli yma yn gynnar yn ystod y cyfnod canoloesol, a gallai hyn egluro pam mae cerrig arysgrifedig Cristnogol cynnar yn cael eu cadw yn eglwys y plwyf. Awgrymwyd hefyd fod mynachlog Hendy-gwyn ar Daf, a arferir cysylltu â Hendy-gwyn, mewn gwirionedd wedi'i lleoli ger y pentref, yn agosach at darddle'r Taf. Wrth gwrs, hon oedd y fynachlog a ddaeth yn adnabyddus am y lleoliad lle cafodd deddfau Cymru eu gwneud yn rhai statudol gan Hywel Dda yn y ddegfed ganrif, ac nid yr Abaty Normanaidd diweddarach ger Hendy-gwyn.

I'r gogledd-ddwyrain o'r pentref, ym mhentref Llwyndrain, ceir adfeilion 'castell pridd' Cymreig, sy'n cael ei ddynodi gan yr enwau lleoedd cyfagos – Nant-y-Castell, Penrhiwcastell, Pencastell a Chastell. Mae'r ffaith fod castell wedi bodoli yn awgrymu goresgynwyr, gwarchaeau, a brwydrau. Mae'n ddiddorol canfod fod y ffermydd cyfagos yn dwyn enwau fel 'Tre Saeson' a 'Pant yr Heddwch', ac ychydig ymhellach i'r dwyrain ceir 'Bryn Gwyddyl a 'Pant y Gwyddyl'.

Ar hyd y ‘ffordd gefn’ o Degryn i Lanfyrnach mae rhiw serth a elwir gan y bobl leol yn ‘Rhiw Speit’. Credir bod yr enw ‘Speit’ yn deillio o’r gair Lladin ‘Hosbitium’, sy’n golygu lletygarwch/croeso, ac mae’n ddiddorol nodi bod adeiladwyr cynllun carthffosiaeth Tegryn-Llanfyrnach wedi darganfod yr hyn sy’n edrych fel adfeilion eglwys.

Mae gan y pentref gapel o’r enw Llwynyrhwrdd, sy’n sefyll mewn safle blaenllaw yn edrych dros Ddyffryn y Taf. Adeiladwyd y capel yn gyntaf yn 1805, a chafodd ei wneud yn fwy a’i adnewyddu yn ddiweddarach. Bu Chwarel y Glog gerllaw yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad pentref Tegryn. Roedd y chwarel llechi yn llwyddiannus, ac yn ystod y 19^{eg} ganrif, John Owen, mab perchennog y chwarel – a oedd yn ddyn busnes llwyddiannus yn Llundain – oedd prif gymwynaswr rheilffordd Hendy-gwyn i Aberteifi (Cardi Bach) 1875-1963. Claddwyd John Owen ym mynwent Llwynyrhwrdd. Mae hefyd yn ddiddorol nodi fod ysgol gyntaf y pentref yn Llwynyrhwrdd o 1867 i 1880, ac fe’i gelwir yn ‘Ysgol Brydeinig Llwynyrhwrdd’. Yn 1879 adeiladwyd Ysgol Tegryn, ac fe’i hagorwyd yn 1880. Bu cyfoeth o dalent yn hanu o’r pentref erioed, ac mae’r ardal yn nodedig am fod yn gartref i nifer o feirdd Cymraeg adnabyddus, a phob un wedi treulio’u blynyddoedd cynnar yn ysgol y pentref ac yn y capel. Bu E. Curig Davies, Tresaeson, David Gwyn Evans, Blaenyffynnon, Tomi Evans, Blaenyffynnon, W. Rhys Nicholas, Penparc (a elwir bellach yn Gwynfryn), yn weithgar yn y byd llenyddol yn ystod canol yr 20^{fed} ganrif, ac yn hwyrach yn yr 20^{fed} ganrif.

Mae ffenomen y ‘tai unnos’ hefyd yn rhan o hanes Tegryn. Dyma’r traddodiad o ganiatáu i unrhyw un a allai godi tŷ dros nos ar dir comin hawlio’r tŷ a bod yn berchennog balch – a’r holl dir o fewn tafliad bwyell iddo. Mae tystiolaeth ar gael bod o leiaf tri o’r ‘tai unnos’ hyn wedi’u hadeiladu yn hwyr yn y 18^{fed} ganrif ac yn gynnar yn y 19^{eg} ganrif yng nghyffiniau Tegryn.

Mae bywiogrwydd Tegryn a’i chyffiniau yn y blynyddoedd a fu yn sicr yn well na Thegryn y dyddiau hyn. Mae rhai o’r bobl leol sy’n byw yn y pentref heddiw yn cofio’r cyfnod pan fu gan y pentref bedair siop a swyddfa bost, dau deiliwr, gwniadwraig, cobler,

masnachwr wyau, perchennog bws, ac nid nepell o'r pentref roedd melin wlân a gof.

Mae'r dafarn yn Nhegryn yn un o'r busnesau prin sydd o hyd yn rhan o'r pentref heddiw, ac sydd bron mor hen â'r capel. Cafodd ei adeiladu yn y 19edd ganrif, ac yn dyddio yn ôl i 1826.

Roedd bywyd diwylliannol y gymuned, a oedd yn troi o gwmpas yr ysgol a'r capel, yn un iaith Gymraeg yn bennaf. Y capel, yn arbennig, oedd prif biler yr heniaith. Yn anffodus, mae'r dirywiad cyflym o ran y nifer o bobl sy'n mynychu'r capel yn mynd ochr yn ochr â'r dirywiad cyflym yn y nifer o bobl sy'n siarad yr iaith. Unig obaith diwylliant y pentref Tegryn yw goroesiad y famiaith. Mae'r arwyddion yn dda ar gyfer y dyfodol, mae'r ysgol yn gwneud gwaith bendigedig wrth integreiddio plant newydd sydd wedi symud i'r pentref, mae ein pobl ifanc yn penderfynu aros yn y pentref a magu teuluoedd yma, ac mae'r pentrefwyr yn annog y newydd ddyfodwyr i ddysgu'r iaith, ac o wneud yn ymdrochi eu hun yn y traddodiadau a diwylliant Tegryn.

CYNIGION Y CYNLLUN GWEITHREDU

Bydd cynhyrchu Cynllun Gweithredu yn darparu rhaglen y cytunir arni ar gyfer datblygu cymunedol yn Nhegryn, o ran gwella'r seilwaith a bywyd cymdeithasol y trigolion.

A. Cyfleusterau'r Gymuned

<u>Sylwadaeth</u>

Mae'r capel sylweddol yn Llwynyrhwrdd, i'r de o Degryn, yn dathlu ei ddau ganmlwyddiant ym mis Mai. Fodd bynnag, mae'r adeilad presennol yn dyddio o 1874. Mae'r gymuned yn falch o'r capel, ac wedi crynhoi hanes y capel, sy'n debyg o gael ei gyhoeddi yn y dyfodol agos. Yn anffodus, mae'r nifer o bobl sy'n mynychu'r capel yn lleihau.

Caewyd Ysgol Bwlch-y-Groes ac Ysgol Tegryn yn 2001. Ailagorwyd yr hen Ysgol Tegryn, a'i enwi'n Ysgol Clydau, i wasanaethu'r ddwy gymuned. Mae unigolion cryf yng

nghymuned Tegryn wedi brwydro i gadw Ysgol Clydau ar agor.

Adeiladwyd y dafarn, yn ogystal â'r capel, yn y 19edd ganrif, ac mae'n dyddio'n ôl i 1826. Mae'r dafarn ar agor o hyd heddiw, ac oherwydd nad oes neuadd/canolfan gymunedol gan y pentref, mae'n gweithredu fel amgylchedd cyfeillgar i aelodau o'r gymuned gwrdd. Yn ychwanegol at hynny, mae wedi'i leoli'n dda yng nghanol y pentref.

Mae'r cae pêl-droed, a roddwyd i'r gymuned, ychydig o bellter i'r gogledd o Degryn. Mae angen gwella'r cae rywfaint. Yn bennaf, mae angen adnewyddu'r toiledau, ac nid oes unrhyw gyfleusterau newid dillad.

Gellid darparu gorchudd dros dro ar gyfer unrhyw gyfleusterau cymdeithasol neu chwaraeon a gynhelir ym mhentref Tegryn (neu yn rhai o'r pentrefi cyfagos) drwy gael pabell fawr y gellir ei thynnu o'i lle.

Byddai offer ychwanegol yn ardal chwarae'r plant, sydd yng nghanol y pentref, yn ei gwneud yn gyfleuster mwy deniadol, gan nad oes digon o ardaloedd chwarae diogel i blant lleol. Ar hyn o bryd, ceir siglenni, a ffrâm ddringo sydd â llithren fach.

Prin iawn yw'r cyfleusterau yn Nhegryn i gadw diddordeb ei phoblogaeth, er enghraifft nid oes neuadd gan y pentref.

Achos pryder hefyd yw y gallai'r capel a'r ysgol gau oherwydd diffyg defnydd.

<u>Y Cynigion</u>

Gyda chymorth Pwyllgor Lles Tegryn, Cymdeithas Gymunedol sy'n croesawu pawb yn y gymuned, a Chyngor y Gymuned:

- Dod o hyd i adeilad sy'n bodoli, neu safle ar gyfer neuadd i'r pentref, a fyddai'n gweithredu fel man cyfarfod cyffredinol, i bobl o bob oed, ac fel bar coffi – byddai ymgorffori siop yn yr adeilad yn darparu amwynder mwy cynhwysfawr.

- Llunio Pwyllgor/Grŵp Neuadd y Pentref a Chaeau Chwarae er mwyn:

- Paratoi Cynllun Busnes i ddatblygu cyfleusterau hamdden a chwaraeon y gymuned.

- Mesur lefel y diddordeb ac argaeledd adeilad/safle. Byddai addasu adeilad sydd eisoes yn bodoli neu adeiladu un newydd yn gofyn am gymorth grant, yn ddelfrydol, byddai'n dda pe byddai'r adeilad/tir yn cael eu rhoi, a phe gellid dod o hyd i adeiladwr sydd ag ymagwedd 'gymdogaeth dda'.

- Annog grwpiau newydd i ffurfio er mwyn dangos yr angen am gyfleuster cymunedol, fel neuadd i'r gymuned.

- Cynyddu a gwella maint y cae chwarae, a'r ystod o offer chwarae sydd ar gael.

- Pennu'r angen am ramp byrddau sgrialu, ar y cyd â'r ieuenctid yn Nhegryn. Ac os bydd digon o alw, dod o hyd i safle (a allai fod o bosib wedi'i gysylltu â'r cae chwarae), codi arian ac adeiladu'r ramp.
- Gwella rheoli'r cae chwarae, ac uwchraddio neu ddisodli'r toiledau sy'n bodoli eisoes.

- Prynu pabell fawr i'w defnyddio ar gyfer digwyddiadau lleol (a'r cyfle i'w hurio).

- Buddsoddi mewn gosodion a ffitiadau ar gyfer y babell fawr, ac mewn seilwaith ar gyfer y cae chwarae, er enghraifft trydan, ffensys, mynediad, ac ati.

Awgrymir cynnal arolygon i bennu anghenion grwpiau defnyddio posibl, er enghraifft dimensiynau'r llawr a'r nenfwd rhag ofn y caiff chwaraeon dan do eu hystyried ar gyfer neuadd y pentref.

B. Gweithgareddau'r Gymuned

<u>Sylwadaeth</u>

Mae'r bobl yn gyfeillgar, yn hoff o sgwrs, ac yn cydweithio'n dda â'i gilydd. Mae Tegryn yn gymuned ddiogel a gofalgar. Mae nifer o

wirfoddolwyr parod ac ymroddedig i drefnu a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ac achlysuron, er enghraifft cyngerdd Nadolig yr ysgol, a'r carnifal/mabolgampau blynyddol llwyddiannus – sy'n cynnwys adloniant yn y dydd a'r nos, cig eidion rhost, a disgo. Mae digwyddiadau o'r fath yn aml yn weithgareddau sy'n codi arian.

Bydd y boblogaeth fach, ac oedran cyfartalog y gymuned, sy'n cynyddu, yn ei gwneud yn fwy anodd i gynnal rhai o'r gweithgareddau cymdeithasol, ac mae rhywfaint o bryder am ymarferoldeb rhai o'r gweithgareddau. Er enghraifft, mae'r nifer sy'n mynychu'r capel yn lleihau, ac os nad oes digon o bobl ifanc, mae'n bosibl y byddai'r carnifal blynyddol yn dod i ben. Gallai pobl ifanc adael y pentref.

Mae nifer o bobl Tegryn yn aelodau o eglwys Clydau hefyd. Er nad yw'r eglwys wedi'i lleoli yn y pentref, mae pobl o Degryn yn mynychu'r gwasanaethau, ac mae'r bobl yn teimlo ei bod yn rhan o hanes yr ardal.

Mae nifer o'r trigolion hefyd yn teimlo os bydd y pentref yn tyfu'n rhy fawr, neu'n tyfu'n rhy gyflym, y bydd yr ysbryd cymdogol yn cael ei golli.

Yr un bobl sy'n tueddu i fod yn barod i 'wneud' pethau yn y gymuned. Mae Pwyllgor Lles Tegryn, sy'n cwrdd yn y *Butchers Arms* ac yn yr ysgol, yn awyddus i ofalu am anghenion pob rhan o'r gymuned.

Nid oes urnhyw leoliadau lle gallai'r bobl ifanc gwrdd dan do, ac mae'r gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc yn annigonol; nid oes clwb ieuenctid, nac ychwaith digon o fannau chwarae diogel. Mae diddordeb gan y plant mewn sefydlu clwb ieuenctid.

Mae pobl yn cwrdd yn nhafarn y *Butchers Arms*, lle chwaraeir dartiau a pŵl, ac yn y capel ac yn Ysgol Clydau – canolbwyntiau'r pentref. Yn anffodus, mae'r capel a'r ysgol y tu allan i ganol y pentref.

Caiff ras amldirwedd ei chynnal bob blwyddyn i fyny'r Frenni Fach a'r Frenni Fawr, sy'n cynnwys pobl o bob oed. Mae Ras Dau Fryn yn denu pobl o bell i gystadlu – gan gynnwys o Ganada.

Mae Merched y Wawr yn cwrdd yn Llwynyrhwrdd, ac mae'r WI yn cwrdd ym Mwlch-y-Groes.

Mae difyrrwch lleol yn cynnwys cerdded oddi ar y ffordd, seiclo, marchogaeth, rasio siandrïau, pêl-droed a garddio. Ymhellach i ffwrdd yng Nghwm Cych, mae rhai o'r bobl leol yn mwynhau gyrru ceir 4x4 oddi ar y ffordd.

Er bod cyfranogwyr yn teithio i Grymych am ddosbarthiadau Cymraeg, cynhelir dosbarthiadau cyfrifiaduron yn Ysgol Clydau.

O ganlyniad i natur gyfeillgar y cymdogion a'r trigolion mae cynllun Gwarchod Cartrefi mewn grym.

Ymddengys o'r Archwiliad o Sgiliau ac Adnoddau a gafodd ei gynnal yng Ngweithdy 2 yr ymarferion Creu Gweledigaeth:

- fod amrywiaeth o sgiliau o fewn y gymuned i alluogi sicrhau cynnydd wrth roi'r Cynllun Gweithredu mewn grym. Dylai'r bobl sydd â'r sgiliau gael eu hannog i fod yn weithgar wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu;
- y byddai rhai trigolion yn gwerthfawrogi cael eu hyfforddi i ddatblygu sgiliau sydd ganddynt, neu ddatblygu sgiliau neu weithgareddau newydd.

<u>Y Cynigion</u>

Sicrhau bod Pwyllgor Lles Tegryn yn cwrdd yn rheolaidd i gefnogi rhoi'r Cynllun Gweithredu mewn grym, er mwyn canolbwyntio egni a sgiliau'r trigolion i gynnal a datblygu'r gymuned.

Defnyddio lleoliadau sydd eisoes yn bodoli, fel yr ysgol a'r cae chwarae, neu ddatblygu rhai newydd. Bydd Pwyllgor Lles Tegryn yn gyfrifol am greu a threfnu cyfleoedd i gwrdd ac annog pobl leol i ddatblygu profiadau newydd, er enghraifft:

- Teithiau cerdded achlysurol yn yr ardal i gynyddu gwerthfawrogi gogledd-ddwyrain Sir Benfro, a gwella iechyd pobl leol o bob oed, er enghraifft i'r Frenni Fach. Mae'n bosibl y byddai'r Taith Gerdded Flynyddol yn hyrwyddo'r cynnig hwn.
- Dosbarthiadau aerobig – o bosib mewn lleoliadau yn y pentref.

- Dawnsio llinell – gan ddefnyddio neuaddau y tu allan i'r pentref o bosib.
- Tripiau seiclo.
- Sefydlu pwyllgor/grŵp digwyddiadau i drefnu digwyddiadau codi arian ychwanegol, gan gynnwys cyngherddau/Noson Lawen, cystadleuaeth Pentref yn ei Flodau, a digwyddiadau newydd ychwanegol, yn enwedig yn yr hydref.
- Treialon RTV [*Rough Terrain Vehicle]* (o drafod â sefydliadau cefn gwlad).
- Gwerthuso'r anghenion hyfforddi a ddisgrifir yn yr Archwiliad o Sgiliau ac Adnoddau, a datblygu unrhyw gyrsiau posibl a allai gael eu cynnal yn yr ysgol, neu mewn lleoliadau eraill, er enghraifft cynnal hyfforddiant/cyrsiau ar gyfer DJs, a datblygu cwrs ymosod ar gyfer yr ieuenctid.
- Dechrau clwb/grŵp ieuenctid Tegryn, a fydd yn gyfrifol am drefnu digwyddiadau fel disgos a chystadlaethau pŵl.
- Gweithio gyda sefydliadau sydd eisoes yn bodoli i annog cyfranogiad gan bobl ifanc, er enghraifft:
    - Annog pobl leol sydd â diddordeb i ddechrau clwb pêl-droed.
    - Y clwb pêl-droed i reoli cystadleuaeth pêl-droed 6-bob-ochr. Ffurfio timau, denu dyfarnwyr, ac annog chwarae y tu allan i'r tymor.
    - Y capel i adfywio'r Ysgol Sul.
    - Asesu'r galw am glwb ieuenctid a gweithgareddau cysylltiedig, yn arbennig ar gyfer pobl ifanc sy'n 14+ oed.
- Cynnal gwerthusiad â phobl ifanc Tegryn i weld pa weithgareddau yr hoffent eu cael. Os bydd diddordeb gan yr ifanc, gellid siarad ag aelodau o'r Urdd a'r Aelwyd am gynnal clwb ieuenctid yr Urdd yng nghymuned Tegryn.
- Pwyllgor/Grŵp Digwyddiadau i hyrwyddo a marchnata digwyddiadau cyfredol, fel Ras Dau Fryn, yn ôl ardaloedd, er mwyn denu mwy o ymwelwyr i Degryn.
- Sefydlu grŵp 'Cyd' Tegryn i annog pobl leol i ymarfer siarad Cymraeg yn y gymuned.
- Cychwyn cyrsiau iaith Gymraeg yn Nhegryn, er mwyn annog pobl i ddysgu'r iaith.

C. Cyfathrebu

Sylwadaeth

Mae gan Degryn gylchlythyr llwyddiannus iawn a gynhelir gan Lais Tegryn. Mae'r cylchlythyr am ddim, ac yn cael ei ddosbarthu i bawb yn y gymuned bob deufis.

Hysbysiadau lleol yn y swyddfa bost, a hysbysfwrdd yn *y Butchers Arms* yw ffynonellau'r wybodaeth am ddigwyddiadau yn y pentref ac mewn pentrefi cyfagos. Yn ogystal, Tegryn oedd y pentref cyntaf yn Sir Benfro i gael gwefan. Cafodd y wefan ei lansio yn 1998. Mae'r *Tivyside Advertisier* a'r *Carmarthen Journal* yn darparu manylion ehangach am ogledd-ddwyrain Sir Benfro a Cheredigion. Gan fod nifer o bobl yn Nhegryn yn siarad Cymraeg, mae nifer o'r bobl leol yn darllen *Clebran* i gael gwybod am wybodaeth leol.

Mae'r signal ar gyfer ffonau symudol yn wan, a dim ond signal ysbeidiol a geir yn y pentref.

Y Cynigion

- Sefydlu grŵp golygyddol/dylunio ar gyfer cylchgrawn /newyddlen i'r ieuenctid er mwyn cryfhau Cylchlythyr Tegryn a chynnwys:
  - erthyglau a fyddai'n annog pobl ifanc i gymryd rhan wrth greu tudalen eu hun yn y Cylchlythyr;
  - hysbysebion am ddigwyddiadau, disgos lleol ac ati;
  - cystadlaethau, er enghraifft pêl-droed 6-bob-ochr, pŵl a tennis.

- Sefydlu grŵp cyfathrebu i sicrhau bod yr hysbysfyrddau'n cael eu rheoli i ddangos posteri, cylchlythyrau cyfredol ac yn y blaen.

- Cynyddu'r nifer o hysbysfyrddau yn Nhegryn, a gwella ansawdd ac argaeledd y wybodaeth am ddigwyddiadau yn Nhegryn ac yn y pentrefi cyfagos.

- Trafod gwelliannau i ansawdd trosglwyddiadau ffonau symudol â darparwyr.

CH. Yr Amgylchedd (gan gynnwys Hawliau Tramwy)

Sylwadaeth

Mae safle uchel Tegryn yn rhoi golygfeydd hardd ac eang dros y bryniau a'r dyffrynnoedd gerllaw, ac yn sicrhau digon o awyr iach. I'r gwrthwyneb, o ganlyniad i'r lleoliad hwn, mae'r tywydd yn arw iawn.

Mae'n bentref tawel, glân a thaclus. Mae cae chwarae'r gymuned yn cael ei ystyried yn fantais i'r pentref o ran yr amgylchedd gwyrdd.

Mae mynediad hawdd drwy'r rhwydwaith o lwybrau cerdded lleol, gan gynnwys y rhai hynny sy'n croesi tir ffermio,

- i amrywiaeth o gynefinoedd naturiol, gan gynnwys y bryniau a'r coetiroedd, sy'n cynnwys rhai o'r mannau uchaf o gordderi yn Sir Benfro. Mae ardal agored y Frenni yn arbennig o hardd;
- i weithgareddau diwydiannol cynt yn ardal y Glog.

Mae llwybr seiclo cenedlaethol,Taith 47, sy'n rhan o'r Llwybr Celtaidd, yn pasio drwy'r pentref.

Mae'r fferm wynt gerllaw yn bresenoldeb gwirioneddol, o ran cynhyrchu ynni cynaliadwy.

Mae rhai aelodau o'r gymuned yn mwynhau garddio yn eu hamser rhydd.

Y Cynigion

- Sefydlu grŵp yr amgylchedd ac archwilio, er enghraifft ar y cyd â'r Ganolfan Eco,
  - ymarferoldeb gosod paneli gwresogi solar mewn tai sydd eisoes yn bodoli, ac argaeledd grant;
  - ffyrdd gwahanol o gynhyrchu trydan o adnoddau adnewyddadwy, gan gynnwys tyrbinau gwynt ar gyfer y gymuned.

- Sefydlu grŵp gwella i edrych ar ffyrdd o wella'r pentref.

- Trafod ag Asiantaeth yr Amgylchedd a Dŵr Cymru y defnydd posibl o'r ffynhonnell flaenorol o ddŵr i'r pentref.

- Pennu a oes digon o ddiddordeb lleol mewn dechrau clwb garddio, ac archwilio'r posibilrwydd o gael gardd gymunedol.

- Codi ymwybyddiaeth am faterion yr amgylchedd drwy
  - blannu perthi brodorol;
  - bwydo'r adar gwyllt/gosod baths adar;
  - trafodaethau gan sefydliadau lleol, er enghraifft Ysgol Clydau.

- Ychwanegu at y rhwydwaith cyfredol o lwybrau, a datblygu taflen am y teithiau cerdded yn Nghegryn ac yn y cyffiniau.

- Yn ychwanegol at ddatblygu llwybrau cerdded, gellir creu llwybr seiclo ar ffyrdd tawel yn yr ardal. Mae Taith 47 yn mynd trwy'r pentref yn barod, ac mae'n bosibl ei defnyddio i greu teithiau newydd oddi arni.

D. Treftadaeth

Sylwadaeth

Mae gan yr ardal o gwmpas Tegryn, gan gynnwys Star, Llanfyrnach a'r Glog, gysylltiadau â mwyngloddio am blwm ac arian, ac â'r rheilffordd i Grymych, sydd bellach wedi'i gadael i fynd yn segur. Mae'r ardal yn adnabyddus hefyd am ei diwydiant gwlân yn y blynyddoedd a fu.

Bydd y capel yn 200 mlwydd oed eleni, ac mae o bwys hanesyddol a threftadaeth allweddol i'r gymuned.

Adeiladwyd y dafarn yn y 19^{edd} ganrif, yn 1826, ac mae'n parhau i fod yn lle pwysig sy'n dwyn aelodau o'r gymuned ynghyd.

Hefyd, mae mwy nag un Tŷ Unnos yn yr ardal, sy'n debyg i Dŷ Hyll yng Ngogledd Cymru, sef yn ôl hen gyfreithiau, yn dŷ ar dir comin a allai gael ei hawlio gan unrhyw un sy'n llwyddo i'w godi dros nos, a chael mwg yn codi o'r simne erbyn y bore wedyn.

Mae nifer o bobl flaenllaw ym mywyd Cymru wedi'u geni yn Nhegryn, gan gynnwys Canon Dewi Thomas, y Parchedig Rees Nicholas, a Tommy Evans, enillydd y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol 1970.

Mae unigolion sy'n byw yn y pentref heddiw o hyd yn mwynhau ysgrifennu rhyddiaith a barddoniaeth.

Y Cynigion

Mewn cysylltiad â thrigolion y Glog a Llanfyrnach, Pwyllgor Llyfrau Hanes Clydau ac Archaeoleg Cambria:

- Sefydlu Grŵp Hanes/Treftadaeth er mwyn:
  - amlygu ac arwyddo llwybr hanesyddol yn Nhegryn ac yn y cyffiniau;
  - ymchwilio, dylunio a gosod byrddau dehongli, sy'n disgrifio hanes yr ardal a'r cyfraniadau at fywyd Cymru a wnaed gan rai o'r trigolion blaenorol.
  - cyhoeddi taflen dreftadaeth a allai fod ar gael yn y swyddfa bost, sy'n mapio'r llwybr ac yn amlinellu'r hanes ar hyd y llwybr;
  - trefnu nosweithiau hanes lleol yn ystod misoedd y gaeaf;
  - cynnal nosweithiau adrodd barddoniaeth.

- Cysylltu â sefydliadau a allai o bosib ariannu cyhoeddi hanes Capel Llwynyrhwrdd.

DD. Tai

Sylwadaeth

Mae rhai o'r farn bod maint yr adeiladu newydd a'r rhagolwg o adeiladu rhagor o dai yn newid cymeriad Tegryn ac yn fygythiad posibl i ysbryd cymdogol y pentref. Yn ogystal, mae pryder ynglŷn â gallu'r system garthffosiaeth i ymdopi â'r adeiladau presennol – neu unrhyw adeiladau ychwanegol.

Y dyddiau hyn, prin iawn yw'r nifer o dai sydd ar gael ac yn fforddiadwy ar gyfer pobl sy'n prynu am y tro cyntaf, ac mae'n achos pryder y bydd pobl ifanc yn dechrau symud i ffwrdd o'r ardal.

Mae'r bobl hŷn yn y gymuned yn teimlo bod angen adeiladu tai gwarchod ar gyfer pobl hŷn.

Y Cynigion

- Drwy weithio â Chyngor Sir Penfro, ystyried cyfyngu ar faint a ffurf Tegryn, neu o leiaf cyfyngu ar raddfa'r datblygu,
  - er mwyn cynnal ysbryd cymdogol y pentref;
  - hyd nes bod gallu'r system garthffosiaeth wedi'i chynyddu.

- Pwyllgor Lles Tegryn i weithio gyda'r Cyngor Sir a Chyngor y Gymuned i ymgymryd ag arolwg o anghenion lleol i bennu'r galw cyfredol am dai fforddiadwy i'w rhentu ac i'w rhoi ar werth, ac os bydd y canlyniadau yn cyfiawnhau gweithredu:
  - datblygu tai mwy fforddiadwy, yn bennaf ar gyfer yr ifanc – o bosib drwy gyfranogiad Cymdeithas Tai, hynny yw Tai Cantref – neu gefnogi datblygu ymddiriedolaeth tai leol. Ac o wneud, helpu i gadw teuluoedd ifanc yn agosach at eu cartrefi presennol;
  - datblygu/gwella'r ddarpariaeth leol o dai ar gyfer pobl hŷn.

E. Busnes, Gwasanaethau a Chyflogaeth (gan gynnwys Twristiaeth)

Sylwadaeth

Mae'r prif gyflogwyr lleol, sy'n cyfrannu at yr economi lleol, yn cyflogi pobl leol ym meysydd cludo, amaethyddiaeth, trwsio ceir, ac amryw o fasnachau a chrefftau eraill.

Mae Swyddfa Bost Tegryn, sy'n caniatáu rhywfaint o weithgareddau bancio, ar agor yn ystod y bore a'r prynhawn, ac mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei gydnabod yn un gwerthfawr.

Mae'r bobl leol yn falch iawn o'u tafarn leol hefyd, ac mae nifer ohonynt yn ei defnyddio fel man cyfarfod.

Ymhlith y gwasanaethau sy'n cael eu cludo i Degryn, fel rhan o'r ymweliadau â phentrefi eraill yn yr ardal, y mae'r llyfrgell deithiol, sy'n cynnwys fideos a llaeth, cigydd, a'r fan bara.

Nid oes unrhyw siopau yn yr ardal, mae'r siopau agosaf yng Nghrymych, Bwlch-y-Groes a Boncath. Mae pryder y gallai nifer o'r busnesau gau oherwydd prinder defnydd.

Y Cynigion

- Gweithio gyda Phwyllgor Lles Tegryn a Chyngor y Gymuned i ddod o hyd i adeilad posibl ar gyfer siop i'r pentref; un opsiwn fyddai estyn y swyddfa bost, un arall fyddai codi adeilad newydd.
- Sefydlu grŵp busnes i hyrwyddo busnesau lleol a chodi ymwybyddiaeth amdanynt.
- Gallai'r grŵp busnes baratoi cyfeirlyfr lleol o fasnachau a gwasanaethau, a fyddai'n annog y gymuned ac ymwelwyr i gynnal yr economi lleol.

F. Trafnidiaeth, Ffyrdd a Thraffig

Sylwadaeth

Mae amserlen gwasanaethau'r bysiau yn gyfyng iawn.

- Ar ddydd Mercher cyntaf y mis, mae bws Aberteifi i Gaerfyrddin, rhif 230, yn mynd trwy Degryn am 10.40am ac yn dychwelyd ar ôl pum awr a chwarter, sef 5.05pm.

- Ar ddydd Llun a dydd Gwener, mae bws Pentre Galar i Aberteifi, am 10.06am yn mynd trwy Degryn, ac yn dychwelyd am 2.53pm, gan ganiatáu tair awr yn Aberteifi.

Mae Bws y Ddraig Werdd, sy'n derbyn croeso mawr gan y gymuned, yn wasanaeth hyblyg, sy'n caniatáu ichi ffonio am deithio arno. Caiff y gwasanaeth ei weithredu gan PRTA yn ardaloedd Clydau, Crymych, Brynberian a Threfdraeth. Mae'n teithio pum gwaith yr wythnos o Degryn yn ystod yr haf, gan ddefnyddio gyrwyr gwirfoddol. Cynigir y gwasanaeth yn bennaf

- i gysylltu â gwasanaethau bysiau eraill yn yr ardal;
- i gynnig gwasanaeth arbenigol i bobl hŷn, i bobl anabl neu i bobl ifanc;

- fel bws ar gyfer cerddwyr, sy'n cynorthwyo archwilio bryniau Preseli gan drigolion ac ymwelwyr.

Mae aelwydydd yn talu i fynd yn aelod o Fws y Ddraig Werdd. Mae'r cysgod aros am fysiau gyferbyn â'r swyddfa bost.

Er bod pentref Tegryn o fewn terfyn cyflymder o 30 milltir yr awr, mae'r trigolion yn teimlo bod traffig yn teithio'n rhy gyflym drwy'r pentref, ac y gallai mwy o arwyddion gael eu codi ar hyd ffyrdd y pentref.

Mae'r palmantau a'r llwybrau troed yn Nhegryn yn annigonol, ac mae prinder lleoedd parcio yn yr ysgol; sydd yn fwy amlwg ar adegau gollwng plant a'u codi.

Mae Tegryn ar Daith Seiclo Genedlaethol rhif 47.

Y Cynigion

Mae unrhyw gynigion am drafnidiaeth, y ffyrdd a thraffig i'w trafod ar y cyd â'r Cyngor Sir.

- Gan gysylltu â chymunedau cyfagos, trafod â'r Cyngor Sir a gweithredwyr bysiau y posibilrwydd o gynyddu amlder gwasanaethau bysiau.

- Gwella goleuo'r strydoedd (yn debyg o gael ei wneud yn 2006/07).

- Estyn palmantau/llwybrau troed yn y pentref, yn arbennig y tu allan i'r ysgol.

- Hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy, ac annog trigolion i gerdded, seiclo neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, yn hytrach na dibynnu ar eu ceir personol.

- Gwella trefniadau parcio yn y pentref, yn enwedig drwy greu lleoedd parcio diogel ger yr ysgol.

- Gosod mesurau tawelu'r traffig i rwystro cyflymderau traffig uchel, yn enwedig cyflymderau HGVs. (Nid yw'r trigolion yn hoff o'r syniad o gael rampiau.) Er enghraifft, gosod mwy o arwyddion cyflymder yn y pentref.

- Os bydd rhaid, yr heddlu i gynyddu'r orfodaeth o gyfyngu'r cyflymder i 30 milltir yr awr drwy hapwirio'r cyfyngiadau 30 milltir yr awr ar gyflymder, ac anfon camerâu cyflymder i ymweld â'r pentref.

FF. Gwaredu Gwastraff ac Ailgylchu

Sylwadaeth

Er bod awydd i ailgylchu, yr unig gyfleuster lleol yn Nhegryn yw'r banc poteli ar ochr y *Butchers Arms*. Mae compostio yn digwydd mewn nifer o erddi, mae rhywfaint o wastraff o erddi, tuniau a phapur yn cael eu cludo i'r Ganolfan Amwynder Dinesig ac Ailgylchu ger Hermon.
Mae gallu annigonol gan y trefniadau gwaredu carthffosiaeth i ateb anghenion y boblogaeth bresennol, nac unrhyw gynnydd arfaethedig.

Nid oes toiledau cyhoeddus yn y pentref.

Y Cynigion

- Gweithio gyda'r Cyngor Sir i wella trefniadau ailgylchu a gwaredu gwastraff drwy ddod o hyd i safle a gosod cyfleusterau ailgylchu ychwanegol ar gyfer papur a thuniau.

- Cytuno ar safle ar gyfer toiledau cyhoeddus.

- Mewn trafodaeth ag Asiantaeth yr Amgylchedd a Dŵr Cymru, ehangu gallu'r trefniadau gwaredu carthffosiaeth fel eu bod yn ateb yr anghenion presennol ac unrhyw dwf yn y boblogaeth.

GWEITHREDU/GRWPIAU GWEITHREDU

Er mwyn sicrhau y caiff y Cynllun Gweithredu ei ddatblygu'n effeithiol, argymhellir sefydlu Grwpiau Gweithio ar ddiddordebau arbennig o fewn Cymdeithas y Gymuned. Byddai'r Grwpiau, mewn ymgynghoriad â'r darparwyr perthnasol, er enghraifft Awdurdod y Priffyrdd, yn canolbwyntio ar baratoi rhaglenni gweithredu mwy manwl, a fyddai'n rhoi blaenoriaeth a ffocws i'r cynigion hynny y gellir eu gweithredu'n gynnar.

Gallai'r Grwpiau ganolbwyntio ar

- Gyfleusterau'r Gymuned
- Gweithgareddau'r Gymuned
- Cyfathrebu
- Yr Amgylchedd (gan gynnwys Hawliau Tramwy)
- Treftadaeth
- Busnes, Gwasanaethau a Chyflogaeth (gan gynnwys Twristiaeth)
- Gwaredu Gwastraff ac Ailgylchu
- Tai
- Trafnidiaeth, Ffyrdd a Thraffig
- Ieuenctid

Mae'n bwysig y byddai'r Grwpiau:

- yn gweithio yn ôl yr hyn a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu a chan Gymdeithas y Gymuned;
- yn gweithio gyda grwpiau a sefydliadau sydd eisoes yn bodoli;
- yn cwrdd yn rheolaidd;
- yn rhoi gwybod i'r gymuned ehangach am y cynnydd.